*Wedi'i gefnogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru*
*Supported by the National Lottery Heritage Fund and Welsh Government*

Nodyn Gwybodaeth Ansawdd Dŵr

# **Natur am Byth! -** *Achub rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru*


Natur am Byth! yw prosiect cadwraeth blaenllaw Cymru: dyma bartneriaeth rhwng naw elusen amgylcheddol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn diogelu rhywogaethau sydd mewn perygl ac yn ailgysylltu'r cyhoedd â'u treftadaeth naturiol. Ar hyn o bryd rydym yn ein cam datblygu sy'n para 18 mis, a fydd yn arwain at gyflwyno ein cais am gyllid i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Mawrth 2023. Os bydd y cais hwnnw'n llwyddiannus, bydd ein cam cyflawni pedair blynedd yn dechrau ym mis Medi 2023.

Ein nod yw monitro, recriwtio gwirfoddolwyr, a chefnogi tirfeddianwyr gyda gwaith cyfalaf. Ar yr un pryd, byddwn yn gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid lleol i annog pobl Cymru i ymwneud â gwaith cadwraeth natur a helpu pobl i gael mynediad at y bywyd gwyllt o'u cwmpas a'i fwynhau. Ein gweledigaeth hirdymor yw:

- y bydd pobl a bywyd gwyllt yn ffynnu ochr yn ochr â'i gilydd mewn cynefinoedd sy'n adfer
- y bydd pobl o bob cefndir yng Nghymru yn teimlo eu bod yn perthyn i fyd natur, yn ei fwynhau ac yn gofalu amdano
- y bydd sefydliadau o bob rhan o gymdeithas Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ofalu am natur a gwerthfawrogi'r buddion y mae eu cymuned yn eu cael ohoni
- y bydd gennym sector gwydn ym maes cadwraeth natur, yr amgylchedd a rheoli tir sy'n cydweithio i wneud mwy o wahaniaeth i rywogaethau fel rhan o ecosystemau iach

Mae Natur am Byth yn dilyn gwaith tebyg a ariannwyd gan y loteri yn Lloegr (Back from the Brink) ond yn bwysig, mae hefyd yn cynnwys yr amgylchedd morol. Mae Species on the Edge yn yr Alban hefyd yn ei gam datblygu ar hyn o bryd. Mae gan Natur am Byth bum prosiect integredig a chwe phrosiect sy'n canolbwyntio ar rywogaethau unigol.

| 5 Prosiect Integredig | | 6 Phrosiect ar gyfer Rhywogaethau Unigol | |
|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Partneriaid craidd** | **Prosiect** | **Partneriaid craidd** |
| Pen Llŷn ac Ynys Môn, Achub y Gorau o'r Gogledd-Orllewin | RSPB (arweinydd); Buglife; Plantlife; Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid; CNC | Gwarchod Gwiberod | Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (arweinydd); Plantlife; Buglife |
| Planhigion Arctig-alpaidd Eryri | Plantlife (arweinydd); Buglife; CNC | Yr Ystlum Du | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent (arweinydd); Buglife; CNC |
| Trysorau Morol Cymru | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (arweinydd); CNC; RSPB | Sêr y Nos Abertawe (yr ystlum pedol lleiaf) | Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (arweinydd); Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent; Buglife |
| Arfordir Bae Abertawe, Tir Comin a Chymunedau | Buglife a Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (cyd-arweinwyr); CNC; Plantlife; Cadwraeth Gloÿnnod Byw | Pryf y cerrig *Isogenus nubecula* | Buglife (arweinydd); CNC |
| Gororau Cymru | CNC (arweinydd); Plantlife; Buglife | Achub y Gardwenynen Feinlais yng Nghymru (*Caerdydd, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, de Sir Benfro*) | Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn (arweinydd); Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid; Buglife; Plantlife; CNC |
| | | Y fritheg frown | Cadwraeth Gloÿnnod Byw (arweinydd); Buglife; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn; CNC |



Un o’r rhain yw prosiect **Trysorau Morol Cymraeg** dan arweiniad y [Gymdeithas Cadwraeth Forol](). Bydd yn canolbwyntio ar warchod rhywogaethau morol pwysig sydd mewn perygl gan gynnwys Morwellt, y Fôr-wyntyll Binc, y Cimwch Coch a’r Wystrysen Frodorol. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn ymgyrch genedlaethol i wella ansawdd dŵr ar hyd Arfordir Cymru.

Mae gwaith morol yn y ddau brif leoliad ar gyfer Trysorau Morol Cymraeg yn derbyn cymorth gan y canlynol:

- Cydlynydd rhanbarthol **Llŷn ac Ynys Môn** Alison Palmer Hargrave (Swyddog ACA Pen Llŷn a’r Sarnau) AlisonPalmerHargrave@gwynedd.llyw.cymru
  Arweinydd y pecynnau gwaith ar gyfer Morwellt, y Cimwch Coch ac Ansawdd Dŵr.
- Cydlynydd rhanbarthol **Sir Benfro** Sue Burton sue.burton@mhpa.co.uk (Swyddog ACA Forol Sir Benfro)
  Arweinydd y pecynnau gwaith ar gyfer y Fôr-wyntyll Binc a’r Wystrysen Frodorol.

Mae gwaith sydd yn y cam datblygu ar gyfer ansawdd dŵr yn cwmpasu’r canlynol:



## Ansawdd Dŵr

- ☐ Adolygu prosiectau, mentrau a monitor ansawdd dŵr presennol
- ☐ Gweithdy rhanddeiliaid i rannu gwybodaeth a phrofiadau
- ☐ Datblygu ar y cyd strategaeth ansawdd dŵr sy’n cyd-fynd â mentrau a mecanweithiau presennol
- ☐ Archwilio opsiynau ar gyfer gwyddoniaeth dinasyddion

**Cydlynydd Rhanbarthol Llŷn & Môn Regional Coordinator:** Alison Hargrave
**Ffon / Tel:** 01286 679495 **E-bost / E-mail:** alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru